

# Y Cwrs Gloywi

## Uned 2 – Cystrawen y Fannod

### 10 Y Fannod

Mae yna dair ffurf ar y fannod yn Gymraeg, sef

**yr, y, 'r**

(i) Y ffurf lawn yw 'yr'.

Mae hon yn digwydd:

a) O flaen llafariad:

yr afon, yr enw, yr afal, yr eryr

b) O flaen deusain:

yr aur, yr eira, yr oen, yr Wyddfa, yr wy, yr iaith

c) O flaen 'h':

yr haf, yr heol, yr haul

(ii) Ceir **y** rhwng dwy gytsain, neu ynteu rhwng cytsain ac 'w-gytsain':

yml y cae, Tal-y-bont, pen y rhiw, wrth y wal, yn y wlad, at y wraig

Fel arfer, ceir **'r** ar ôl geiriau sy'n gorffen â llafariad:

dwylô'r ferch, tŷ'r prifathro, propaganda'r llywodraeth

### 11 Y Treigladd Meddal ar ôl y Fannod

Mae naw cytsain sy'n treiglo'n feddal:

Cytsain Gysefin	Treigladd
p	b
t	d
c	g
b	f
d	dd
g	-
ll	l
m	f
rh	r

(i) Pan ddaw'r fannod o flaen enw benywaidd unigol, treigilir dechrau'r enw yn feddal:

pont, y **bont**; torth, y **dorth**, cylllell, y **gyllell**; buwch, y **fuwch**; dafad, y **ddafad**; gardd, yr **ardd**; gŵyl, yr **wyl**; gwên, y **wên**; mam, y **fam**; tre, y **dre**

**\*\*\* PWYSIG \*\*\***

Dyw 'll' a 'rh' ddim yn treiglo ar ôl y fannod mewn geiriau benywaidd unigol:

y llong, y llaw, y lleuad, y rhaff, y rhaw

Mae llawer o enwau lleoedd a mynyddoedd yn enwau benywaidd unigol, ac felly, maen nhw'n treiglo ar ôl y fannod:

Y Bont-faen, Y Fan Fach, Yr Wyddfa, Y Waun, Y Felinheli

Yn aml iawn, mae'r treigladau yn aros, er bod y fannod yn diflannu:

Felindre, Waun-fawr, Efail-wen, Gors-goch, Gilfach Goch, Drefach, Felin-fach, Waun-lwyd

Yn achos yr enw torfol benywaidd **pobl** ceir treigladau rheolaidd, y **bobl**, a cheir treigladau afreolaidd yn y lluosog, y **bobloedd** (gan nad yw enwau lluosog yn treiglo ar ôl y fannod fel arfer).

(ii) Mae **dau** a **dwy** yn treiglo ar ôl y fannod:

y ddau ddyn, y ddwy ferch, y ddau le ar bymtheg

(iii) Dyw'r rhifolion (gw. § 19), ac eithrio **dau** a **dwy**, ddim yn treiglo ar ôl y fannod:

y tair gwraig, y pedair gwlad, y pum heol, y deg adnod, y can punt

**\*\*\* PWYSIG \*\*\***

Ond fe dreiglir y trefnolion (gw. § 20), pan fyddan nhw'n fenywaidd:

y drydedd bennod, y bedwaredd flwyddyn, y bumed adnod, y ddegfed salm, y ddeuddegfed wers

## 12 Ymadroddion Dangosol

(i) Pan fydd **yma**, **hwn**, **hon**, etc., yn dilyn enw i ffurfio ymadrodd dangosol (demonstrative expression), rhaid rhoi'r fannod o flaen yr enw, e.e.

y tŷ hwn, y ferch honno, y lleoedd hynny, y pethau hyn

Mae **yma**, **yna** ac **acw** yn cael eu defnyddio ar ôl enw unigol neu neu enw lluosog, ond mae'r siart ganlynol yn dangos sut i ddefnyddio **hwn**, **hon**, **hyn**, etc:

‘THIS’			‘THAT’		
Gwrywaidd	Benywaidd	Lluosog	Gwrywaidd	Benywaidd	Lluosog
hwn	hon	hyn	hwinnw	honno	hynny

E.e.

y bachgen hwn                      y ferch hon                      y bechgyn / merched hyn  
y bachgen hwinnw                      y ferch honno                      y bechgyn / merched hynny

Mae’r rheol yn dal os daw **rhai** (yn lle enw) o flaen **hyn(ny)**:

y rhai hyn, y rhai hynny

Yn lle’r ffurfiau llawn ceir yn gyffredin **y rhain, y rheiny**. Ond sylwer fod rhaid wrth y fannod:

o’r rhain, a’r rheiny

(ii) Mae’r fannod yn cael ei defnyddio yn Gymraeg mewn rhai ymadroddion lle na cheir hi yn yr ymadroddion Saesneg cyfatebol, e.e.

<b>yn y gwaith</b>	‘at work’
<b>yn yr ysgol</b>	‘at school’
<b>yn yr eglwys</b>	‘in church’
<b>i’r farchnad</b>	‘to market’
<b>yn y gwely</b>	‘in bed’
<b>ar y trê</b>	‘by train’

(iii) Defnyddir y fannod hefyd mewn ymadroddion yn dynodi safon, pris, mesur, etc., lle ceir y fannod amhenodol yn Saesneg, e.e.

<b>ugain ceiniog y metr</b>	‘twenty p. a metre’
<b>dwywaith y mis</b>	‘twice a month’
<b>hanner can ceiniog y tro</b>	‘50 p. a go’
<b>trigain milltir yr awr</b>	‘sixty miles an hour’

(iv) Ni ddylid rhoi’r fannod o flaen enw afon yn y Gymraeg:

Afon Gŵy, Afon Wysg, Afon Tafwys, Afon Teifi

**Eithriadau:** Yr Iorrdonen, Y Fenai

## Ymarferion

### 5 ‘y / yr’ o flaen enw neu ferfenw

*Cyfieithwch:*

1. the man

---

2. the face \_\_\_\_\_
3. the grandson \_\_\_\_\_
4. the language \_\_\_\_\_
5. the summer \_\_\_\_\_
6. the crying \_\_\_\_\_
7. the collection \_\_\_\_\_
8. the sister \_\_\_\_\_
9. the granddaughters \_\_\_\_\_
10. the secretary \_\_\_\_\_
11. the autumn \_\_\_\_\_
12. the apple \_\_\_\_\_
13. the exercise \_\_\_\_\_
14. the salt \_\_\_\_\_
15. the hen \_\_\_\_\_
16. the duck \_\_\_\_\_
17. the ice \_\_\_\_\_
18. the blow \_\_\_\_\_
19. the week \_\_\_\_\_
20. the umbrella \_\_\_\_\_
21. the response \_\_\_\_\_
22. the barn \_\_\_\_\_
23. the actor \_\_\_\_\_
24. the sky \_\_\_\_\_
25. the misfortune \_\_\_\_\_

## 6 'r

*Cyfieithwch:*

1. the teacher's house

\_\_\_\_\_

2. the dog's bone

\_\_\_\_\_

3. the boy's dog

\_\_\_\_\_

4. the family of the manse

\_\_\_\_\_

5. lilly of the valley

\_\_\_\_\_

## 7 Y Treigladd Meddal ar ôl y Fannod

*Cyfieithwch:*

1. the hedge

\_\_\_\_\_

2. the toll

\_\_\_\_\_

3. the cell

\_\_\_\_\_

4. the crow

\_\_\_\_\_

5. the sight

\_\_\_\_\_

6. the leaf

\_\_\_\_\_

7. the hand

\_\_\_\_\_

8. the spade

\_\_\_\_\_

9. the minute

\_\_\_\_\_

## 8 Rhifolion a Threfnolion

*Cyfieithwch:*

1. the same girl

\_\_\_\_\_

2. the first girl

\_\_\_\_\_

3. the two boys

\_\_\_\_\_

4. the second boy

\_\_\_\_\_

5. the three girls

\_\_\_\_\_

6. the third girl

\_\_\_\_\_

7. the four cows \_\_\_\_\_
8. the fourth cow \_\_\_\_\_
9. eleven schools \_\_\_\_\_
10. the eleventh school \_\_\_\_\_
11. seventeen women \_\_\_\_\_
12. the seventeenth woman \_\_\_\_\_
13. twenty three sheep \_\_\_\_\_
14. the twenty third sheep \_\_\_\_\_
15. a hundred geese \_\_\_\_\_
16. the hundredth goose \_\_\_\_\_